

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda gofid mawr y clywyd y newydd am y tân yng Nghartref Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur fore lau. Diolchwn fod y staff a'r gwasanaethau brys wedi medru sicrhau fod pawb o'r preswylwyr yn ddiogel a chofiw'n am bawb sydd wedi cael eu heffeithio mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i'r digwyddiad. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod dros y staff i gyd, a phob un o'r preswylwyr a'u teuluoedd, ac y byddan nhw'n profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt yn y cyfnod anodd hwn. Deallwn fod trefniadau gofâl dros dro wedi eu gwneud i bob un o'r preswylwyr a bod Mrs Kitty Parry (Llanefydd) a Mrs Elsie May Edwards (Llansannan) wedi symud i gartref gofâl Preswylfa yn y Rhyl. Hyderwn y byddant yn profi gofâl a grym ein gweddïau drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Lloyd Williams ac Ann Evans (Llansannan) – y ddau wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos. Da deall fod Lloyd wedi dod adref o'r ysbyty, ac mae Ann yn disgwyl cael ei symud i Ysbyty Abergele yn y dyddiau nesaf hyn. Parhawn i gofio hefyd am Gwyn Jones (Peniel) sy'n cael gofâl yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Maelor, a Gwyneth Rawson (Llanfair) yn yr Inffirmari. Mae eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd hefyd. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan weddïo y bydd yn eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni ac y byddant yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.
- Llongyfarchiadau i Edwin Jones (Peniel) ac i Tudur Morris (Llansannan) ar ddathlu penblwydd arbennig. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch!

## I ddod

- **ADUNIAD SOULED OUT (15-19 OED)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 26ain–28ain. Gallwch archebu lle ar wefan [colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg](http://colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg). Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn sy'n dal mewn addysg, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 2<sup>il</sup> – 4<sup>ydd</sup>. Yma eto, cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon ffurflen ganiatâd i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan â phosibl. Os nad ydych wedi derbyn gwybodaeth am y cwrs, plis cysylltwch â Gwion.
- **'USING CRAFT TO TEACH THE BIBLE'** – Croeso i unrhyw un ymuno mewn sesiwn hyfforddiant fydd yn cael ei gynnal yn Eglwys y Bedyddwyr, Prince's Drive, Bae Colwyn LL29 8LA dydd Sadwrn, Chwefror 3ydd o 10.00yb-2.00yp. Cost: £7.50 fydd yn cynnwys y deunyddiau a chinio. RHAID archebu lle ymlaen llaw – cysylltwch â Rachel Hughes ([rhughes@urbansaints.org](mailto:rhughes@urbansaints.org) / 01678 530347).



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21<sup>ain</sup> Ionawr 2018

Darlleniad y Dydd

Diarhebion 9:7-10

(BCND tud.583 / BCN tud.533)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i chi i gyd i'r oedfaon ar draws Bro Aled. Pam na ddown ni o flaen yr Arglwydd hollalluog heddiw a'i addoli? Oherwydd yr hyn mae Iesu Grist wedi ei wneud drosta ni, does dim byd yn ein rhwystro rhag dod at Dduw mewn gweddi ac addoliad, gan blygu o'i flaen a'i adnabod fel Brenin.

Tybed pa mor wir ydy'r gosodiad yma: Gellir ddweud mwy am gymeriad person drwy astudio'r ffordd maent yn ymateb na thrwy astudio eu gweithredoedd. Mae'n destun ddigon diddorol i'w ystyried. Mae pobl yn gallu dewis gwneud llawer o bethau – da neu drwg, hael neu hunanol – er enghraifft bwydo'r digartref, dwyn o'r siop, rhoi pres i elusen, bwyta holl fferins eich ffrind! Trwy ein gweithredoedd, mi fedrwn lywio barn pobl am ein bywydau ni. Ond, mae ymateb yn beth gwahanol. Mae'r ffordd rydym yn ymateb ar y pryd i sefyllfa yn dweud y gwir am bwy ydym ni. Mi allai un person sy'n bwydo'r digartref droi'n gas iawn petai rhywun yn cwestiynu ei gymhellion. Mae'r ffordd rydym yn adweithio, neu ein hymateb i sefyllfa, yn dangos ein gwir gymeriad. Tybed sut ydym yn ymateb os nad ydy pethau'n mynd ein ffordd ni, neu os ydy rhywun yn ein cywiro, neu yn ein ceryddu?

Mater tebyg iawn sydd ganddom yn Diarhebion 9 heddiw. Mae'r awdur yn rhoi cipolwg i ni o sut ymateb mae pobl sy'n gwatwar yn ei roi i wahanol sefyllfaoedd – yn benodol, sut mae pobl ddoeth a phobl ffôl yn ymateb i gerydd neu gyngor. Heb fynd i ormod o fanylder am beth yn union mae'n ei ddweud, mae dau gwestiwn yn codi i ni o'r geiriau yma: 1) Sut ydyn ni'n ymateb pan mae pobl yn ein ceryddu neu yn ein cywiro? Ydyn ni'n rhoi llond ceg iddyn nhw neu yn eu dirmygu – “Beth mae nhw'n wybod?” Neu ydyn ni'n troi'n sur yn eu herbyn nhw: “Does ganddyn nhw ddim hawl i siarad am fy mywyd i.” Neu tybed, fel yn adnodau 9 a 10, ydyn ni'n parchu ac yn croesawu'r cyngor, gan sylweddoli ein bod i gyd yn bechaduriaid ac yn gyfartal o flaen Duw? Ydy'r ffordd rydym ni'n ymateb i bethau yn adlewyrchu sut bobl rydym eisïau fod?

Yr ail gwestiwn i ni ydy tybed ydym ni'n adnabod y bobl ddoeth yn ein bywydau? Ydym ni'n gweld gwaith Duw ym mywyd person trwy'r ffordd maen nhw'n ymateb i sefyllfa? Ydy'n llygaid ni ar agor i weld sut mae Duw yn newid pobl i fod yn debycach iddo fo? Ac yna, ydym ni'n clodfori Duw am y newid?

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 24<sup>ain</sup> ➤ **Torri Syched y dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Torri Syched y merched** – seiat am 7.30 (*Ileoliad i'w gadarnhau*).
- Iau – 25<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 26<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Gareth Edwards yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 24<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (21ain)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn festri'r capel am 3.15.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 21<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 28<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

### Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**

### Darllenid Wythnos Nesaf

Mathew 7:21-23 (BCND tud.8 / BCN tud.7)